

Ymateb Cyngor y Gweithlu Addysg i gais am dystiolaeth ar reoliadau a chanllawiau Llywodraeth Cymru ar gyfer ysgolion annibynnol

E-bost i: bwydacysgolionannibynnol@llyw.cymru

Dyddiad: 02 Chwefror 2022

Mae Cyngor y Gweithlu Addysg (CGA) yn croesawu'r cyfle i ymateb i'r cais hwn am dystiolaeth a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru ar 9 Rhagfyr 2021.

O ystyried rôl CGA fel rheoleiddiwr annibynnol y gweithlu addysg yng Nghymru, mae ein hymateb yn canolbwyntio ar y cwestiynau hynny yn y cais am dystiolaeth sy'n ymwneud yn uniongyrchol â'n cyfrifoldeb rheoleiddio.

Canllawiau cofrestru a gweithredu ysgolion annibynnol

Cwestiwn 1: Pa newidiadau y gallwn eu gwneud i'r ddogfen *Canllawiau cofrestru a gweithredu ysgolion annibynnol* i'w gwneud yn ffynhonnell fwy defnyddiol o gyngor a gwybodaeth i ysgolion annibynnol a darpar ysgolion annibynnol?

Mae CGA yn awgrymu'r newidiadau canlynol, a fydd yn berthnasol os caiff deddfwriaeth i ehangu Cofrestr Ymarferwyr Addysg CGA i gynnwys y sector ysgolion annibynnol ei deddfu:

- diwygio'r adran o dan y pennawd ***Checks on staff and volunteers*** (yn Saesneg yn unig y cyhoeddwyd y ddogfen) i gynnwys y gofyniad i gyflogwyr wirio bod cofrestriad CGA ar waith fel rhan o wiriadau cyn cyflogi ac wrth adnewyddu cofrestrïadau'n flynyddol.
- o dan y pennawd ***What happens if the Welsh Government is satisfied that any person working at a school is unsuitable to work with children, unsuitable to work as a teacher or take part in the management of the school?***, dylid diwygio'r canllawiau i gynnwys unrhyw ganfyddiadau a wneir gan Bwyllgor Addasrwydd i Ymarfer CGA sy'n arwain at osod gorchymyn disgyblu am faterion yn ymwneud â chamymddygiad, anghymhwysedd proffesiynol difrifol a / neu euogfarn am drosedd berthnasol. Gall gorchymynion disgyblu gynnwys y rhai sy'n gwahardd neu'n cyfyngu ar allu ymarferydd i ymarfer.
- diwygio ***What are the requirements for reporting cases of staff misconduct or incompetence?*** i gynnwys cyfrifoldeb statudol cyflogwr i gyfeirio achosion at CGA.

Mae'r ddogfen cais am dystiolaeth ar dudalen 12 yn cyfeirio

"Byddai cyflwyno gofyniad i'r holl staff addysgu a staff cymorth dysgu mewn ysgolion annibynnol gofrestru gyda CGA yn gam ychwanegol tuag at ddiogelu dysgwyr. Byddai hefyd yn cyfrannu at sefydlu proses glir y mae pawb yn ei deall ar gyfer ymchwilio i bryderon am aelodau unigol o staff, yn debyg i'r un ar gyfer staff mewn ysgolion a gynhelir, drwy ddarparu llwybr i unigolion neu sefydliadau godi pryderon gyda chorff proffesiynol allanol"

Mae'n werth egluro'r datganiad hwn gan y byddai'r cyfrifoldeb ar gyflogwyr yn fwy na 'chodi pryder'.

Petai cyflogwr yn diswyddo aelod o staff am gamymddygiad, trosedd a / neu fater cymhwysedd neu petai'r person wedi rhoi'r gorau i weithio i'r cyflogwr oherwydd un neu fwy o'r materion hynny (e.e. ymddiswyddo, cytundeb setlo), byddai'n ofynnol yn ôl y gyfraith i'r cyflogwr gyfeirio'r mater at CGA. Mae hynny yn berthnasol ym **mhob** achos. Yna, mae ystyriaeth CGA o atgyfeiriad yn gwbl annibynnol ar ystyriaeth cyflogwr cyn i'r atgyfeiriad gael ei wneud.

Bydd angen i reoliadau fod yn glir ynghylch pwy sydd â'r cyfrifoldeb statudol dros gyflogeion ac felly pwy fyddai'n gyfrifol am adrodd i CGA. Yn ôl y Rheoliadau presennol, y 'perchennog' yw'r person sy'n cofrestru'r ysgol gyda Llywodraeth Cymru. Rydym yn deall y posibilrwydd mai'r pennaeth yw'r perchennog, neu beidio, mai'r corff llywodraethol ydyw o bosibl neu mai sefydliadau mawr sy'n gweithredu ledled y DU ydyw. Efallai y bydd gan ysgolion eraill berchennog sy'n byw dramor. Bydd angen i'r gwaith o ddirprwyo pŵer a chyfrifoldeb fod yn gyson ar draws y sector.

Diogelu dysgwyr

Cwestiynau 2 – A ddylid diweddarau gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (GDG) ar y perchnogion a'r staff yn fwy aml?

Wrth ystyried a ddylid cynnal gwiriadau DBS yn amlach, mae CGA yn dymuno tynnu sylw at y ffaith bod gwiriad datgeliad manylach yn 'giplun' o gofnod person a'i fod ond yn ddilys ar yr adeg y caiff ei gynhyrchu. Nid yw'n darparu rhestr lawn a chyflawn o gofnod troseddol person ond yn hytrach dim ond y troseddau hynny nad ystyrir y cânt eu hidlo gan y GDG. O ganlyniad, gellid dadlau y byddai'n briodol, mewn rhai amgylchiadau, i'r gwiriadau gael eu cynnal yn fwy rheolaidd. Penderfyniad i gyflogwyr unigol yw hyn.

Un o fanteision cofrestru gyda CGA yw bod ymarferwyr yn ddarostyngedig i gydymffurfio â Chod Ymddygiad ac Ymarfer Proffesiynol CGA a'r egwyddor o **Unplygrwydd Proffesiynol** sy'n cynnwys disgwyliad y bydd cofrestrion yn hysbysu CGA o unrhyw euogfarn neu rybudd cofnodadwy a hefyd yn hysbysu eu cyflogwr o unrhyw fater sy'n ofynnol o dan delerau ac amodau eu cyflogaeth.

Cofrestru staff addysgu gyda Chyngor y Gweithlu Addysg (CGA)

Cyn ymateb i gwestiwn 12 yn benodol, mae CGA o'r farn ei bod yn briodol darparu rhywfaint o wybodaeth gefndir am ddisgwyliad y cyhoedd a rheoleiddio'r gweithlu addysg ac, yn fwy penodol, am y gwaith y mae CGA wedi'i wneud dros flynyddoedd lawr i godi ei bryderon ynghylch peidio â rheoleiddio ymarferwyr ysgolion annibynnol.

Mae'n egwyddor sefydledig yn y DU a llawer o wledydd eraill ledled y byd y dylid rheoleiddio proffesiynau lle mae gan y cyhoedd fudd dilys, er mwyn gwarchod / diogelu'r "defnyddwyr gwasanaeth" dan sylw a'r cyhoedd. Yn ymarferol, mae hyn yn golygu:

- gall y cyhoedd fod yn dawe eu meddwl bod gan y bobl sy'n gweithio mewn proffesiwn penodol gymwysterau addas, bod eu gwybodaeth a'u sgiliau yn gyfoes a bod eu hymddygiad a'u cymhwysedd o safon briodol (maent yn addas i ymarfer eu proffesiwn).
- gall y rhai sy'n gweithio mewn proffesiwn penodol ddangos:
 - bod ganddynt, yn unigol ac ar y cyd, ymrwymiad i gynnal a chodi safonau, er budd y cyhoedd.
 - eu bod yn rhan o broffesiwn uchel ei statws a'i barch, gyda gofynion mynediad penodol a disgwyliadau o ran ymddygiad a chymhwysedd.

Mae cofrestru, yn ei hanfod, yn "drwydded i ymarfer" mewn proffesiwn penodol. Mae hyn yr un peth mewn ystod o broffesiynau rheoleiddedig eraill yn y DU, er enghraifft ym maes iechyd, y gyfraith, gofal cymdeithasol, cyfrifeg, peirianeg, pensaernïaeth. Ni ellid amgyffred meddyg sy'n mynd ati i ymarfer heb y

cymwysterau angenrheidiol, y sgiliau a'r ymlyniad wrth safonau ymddygiad priodol – mae'r cyhoedd yn disgwyl dim llai a dylai fod ganddynt yr un disgwyliadau o'r gweithlu addysg.

Ar hyn o bryd, mae dwy senario yn bodoli ym maes addysg yng Nghymru nad ydynt i'w cael mewn gwledydd / proffesiynau eraill:

- gall CGA wrthod ymgeisydd rhag cofrestru neu osod gorchymyn disgyblu ar gofrestrai, ac eto maent yn rhydd i weithio mewn ysgol annibynnol;
- gellir diswyddo athro neu aelod o staff cymorth dysgu o ysgol annibynnol, ac eto nid yw CGA yn ymchwilio iddynt, oni bai eu bod wedi'u cofrestru'n wirfoddol. Gallai person yn y sector a gynhelir fod yn destun honiadau tebyg, ac os felly byddai'n ofynnol yn ôl y gyfraith i'w gyflogwr gyfeirio'r mater at CGA.

Mae'r ddwy senario hyn yn cynrychioli risgiau diogelu. Ni waeth ble mae plentyn yn cael ei addysgu (ysgol a gynhelir neu ysgol annibynnol), dylai lefel y warchodaeth / diogelu a'r ymrwymiad i safonau proffesiynol fod yr un peth. Ers nifer o flynyddoedd, mae CGA (a ChyngACC gynt) wedi tynnu sylw Gweinidogion, swyddogion Llywodraeth Cymru ac eraill at yr anghysondeb a'r risgiau diogelu posibl, gan ddarparu enghreifftiau o achosion go iawn i ddangos tystiolaeth o'r risgiau.

Mae hyn wedi cynnwys:

- amrywiaeth o ymatebion i ymgynghoriadau Llywodraeth Cymru a cheisiadau am dystiolaeth gan Bwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg y Senedd;
- cyfarfodydd a chyfathrebu â'r Gweinidog Addysg a Sgiliau ar y pryd, Huw Lewis, a gomisiynodd adolygiad yn 2015-16 a oedd yn cefnogi cofrestru staff ysgolion annibynnol;
- cyfarfodydd a chyfathrebu â'r Gweinidog Addysg ar y pryd, Kirsty Williams, yn 2020, a ymrwymodd yn dilyn achos proffil uchel yn y sector annibynnol, i ymgynghori ar ddeddfwriaeth i gyflwyno cofrestru ar gyfer staff mewn ysgolion annibynnol;
- cyfarfodydd â'r Prif Arolygydd (Estyn), sy'n cefnogi safbwynt CGA ar gofrestru;
- cyfarfodydd a chyfathrebu â'r Comisiynydd Plant ac yn benodol, yn 2020 i lywio ei harolwg ynghylch arfer swyddogaethau Llywodraeth Cymru;
- tystiolaeth dyst yn 2020 a 2021 gan Brif Weithredwr CGA i'r Ymchwiliad Annibynnol i Gam-drin Plant yn Rhywiol.

Mae CGA yn falch o weld bod y Gweinidog Addysg a'r Gymraeg presennol wedi ymrwymo i fynd i'r afael yn awr â'r risgiau y mae CGA (a ChyngACC gynt) wedi tynnu sylw atynt yn barhaus.

Cwestiwn 12: Pa categorïau o staff ysgolion annibynnol y dylai fod yn ofynnol iddynt gofrestru gyda Chyngor y Gweithlu Addysg (CGA)?

Ar ôl nodi'r cefndir uchod, trown i fynd i'r afael â chwestiwn 12 yn benodol.

Ar gyfer staff mewn ysgolion a gynhelir, mae dau gategori cofrestru ar hyn o bryd, sef "athro / athrawes ysgol" a "staff cymorth dysgu". Mae'r gofyniad i gofrestru yn seiliedig ar y 'gwasanaethau' mae'r unigolyn yn eu darparu yn hytrach na theitl eu swydd go iawn. Yn wir, yn achos staff cymorth dysgu, mae'r ystod o wahanol rolau / teitlau swyddi yn arbennig o eang. Mae Rheoliadau Cyngor y Gweithlu Addysg (Prif Swyddogaethau) (Cymru) 2015 yn nodi'n glir y gwasanaethau sydd i'w darparu gan athrawon ysgol a staff cymorth dysgu.

Mae CGA yn credu'n gryf y dylai fod yn ofynnol i unrhyw ymarferwyr yn y sector annibynnol sy'n ymgymryd â gwaith tebyg (gwasanaethau) i'r rhai mewn ysgolion a gynhelir (fel y'u diffinnir ar hyn o bryd yn y Rheoliadau) gofrestru gyda CGA yn y categorïau presennol, sef "athro / athrawes ysgol" a "staff cymorth dysgu".

Fodd bynnag, mae CGA yn ymwybodol bod cymhlethdod o fewn ysgolion annibynnol yn hyn o beth. Yn nodedig, nid yw'n anarferol i rai pobl nad oes ganddynt Statws Athro Cymwysedig (SAC) weithio fel athrawon. Nid yw hyn yn dderbyniol, yn ôl deddfwriaeth, yn y sector ysgolion a gynhelir, ac eithrio rhai eithriadau penodol. Pan fo person o'r fath heb SAC yn ymarfer mewn ysgol a gynhelir, cânt eu cofrestru fel gweithiwr cymorth dysgu (yn hytrach nag athro / athrawes ysgol) am nad oes ganddynt SAC.

Gwelwyd sefyllfa debyg yn yr Alban pan basiwyd deddfwriaeth ym mis Hydref 2017 a oedd yn ei gwneud yn ofynnol i athrawon ysgolion annibynnol gofrestru gyda Chyngor Addysgu Cyffredinol yr Alban (GTCS). Cofrestrwyd y rhai â'r cymhwyster cydnabyddedig yn yr Alban ac roedd yn ofynnol i'r rhai oedd heb y cymhwyster ei ennill erbyn 1 Mehefin 2021. Ar gyfer penodiadau newydd ers mis Hydref 2017, mae'r cymhwyster cydnabyddedig yn ofyniad gorfodol. Er mwyn mynd i'r afael â mater athrawon heb gymhwyso, cafodd rhaglen hyfforddiant ei chyd-gynllunio gan Gyngor yr Alban ar gyfer Ysgolion Annibynnol (SCIS) a darparwr AGA gyda gofyniad i gyfranogwyr feddu ar gofrestriad dros dro (amodol) gyda'r GTCS cyn gallu cwblhau'r hyfforddiant.

Mae'r model a fabwysiadwyd yn yr Alban yn cydnabod y dylai pob athro ysgol, waeth beth fo'r cyfnod / sector y maent yn addysgu ynddo, feddu ar safon ofynnol o gymhwyster er mwyn ymarfer. Yng Nghymru, i ymarferydd fod yn gymwys i gofrestru yn y categori athro / athrawes ysgol, rhaid meddu ar SAC (ac eithrio rhai eithriadau mewn deddfwriaeth).

Dewis CGA fyddai model tebyg i fodel yr Alban. I fod yn glir, byddai hyn yn golygu:

- bod athrawon ysgolion annibynnol sy'n meddu ar SAC yn cofrestru yn y categori athrawon ysgol presennol;
 - bod gweithwyr cymorth dysgu yn cofrestru yn y categori gweithiwr cymorth dysgu ysgol presennol;
 - bod athrawon ysgolion annibynnol heb SAC yn cofrestru dros dro (yn amodol) mewn categori newydd
- a fydd yn cynnwys gofyniad gorfodol i ennill SAC o fewn cyfnod penodol o amser.

Fodd bynnag, deallwn fod swyddogion Llywodraeth Cymru yn ystyried categori newydd ar wahân ar gyfer athrawon ysgol annibynnol i ddarparu ar gyfer yr athrawon ysgol hynny yn y sector nad ydynt yn meddu ar SAC ond heb y gofyniad i'w ennill o fewn cyfnod penodol o amser. Os dyma'r dull gweithredu a fabwysiedir, gofynnwn i swyddogion Llywodraeth Cymru weithio'n agos gyda CGA er mwyn iddo allu gweithredu'n ymarferol beth bynnag y mae Llywodraeth Cymru yn ei bennu mewn deddfwriaeth.

Cwestiwn 13: Pa ffioedd y dylid disgwyl i unigolion sy'n gweithio yn y sector annibynnol eu talu?

Nid yw CGA yn gallu pennu ei ffioedd cofrestru ei hun; mewn deddfwriaeth, cyfrifoldeb Llywodraeth Cymru yw hynny. Fodd bynnag, ein barn ni yw y dylai'r ffioedd sy'n daladwy gan ymarferwyr yn y sector ysgolion annibynnol adlewyrchu'r rhai a delir gan ymarferwyr yn y sector ysgolion a gynhelir. Fodd bynnag, fel gyda chwestiwn 12, mae ffactor sy'n cymhlethu'r sefyllfa, y mae angen i CGA ei esbonio a gwneir hyn isod.

Mae CGA yn derbyn ffioedd cofrestru mewn un o ddwy ffordd. Mae'r cofrestreion hynny sydd mewn cyflogaeth dan gontract yn cael didyniad statudol o'r ffi o'u cyflogau ym mis Mawrth bob blwyddyn ac yna mae pob cyflogwr yn talu'r ffi i CGA. Mae'r cofrestreion hynny nad ydynt mewn cyflogaeth dan gontract yn talu eu ffioedd yn uniongyrchol.

Yn hanesyddol (cyn 2015), roedd gan athrawon ysgol, o dan eu telerau ac amodau cyflogaeth, hawl i gael ad-daliad gan eu cyflogwr tuag at gost y ffi flynyddol a rhoddodd y Llywodraeth yr arian i gyflogwyr i wneud yr ad-daliad i gyflog ymarferydd. Sylwer, nid oedd hyn yn berthnasol i bob cofrestrai; dim ond y rhai a gâi eu cyflogi drwy awdurdodau lleol.

Pan gafodd CyngACC ei ad-drefnu a'i sefydlu fel CGA yn 2015 ac ehangwyd y Rheoliadau i gynnwys y categorïau ychwanegol mewn addysg bellach, dysgu seiliedig ar waith a gwaith ieuenctid, ymgynghorodd Llywodraeth Cymru ar dri model posibl o dalu ffioedd cyn mabwysiadu'r model isod yn 2017.

Grŵp Ymarferwyr	Ffi Gofrestru	Cymhorthdal	Cyfraniad Gwirioneddol
Athrawon Ysgol	£46	£1	£45
Athrawon AB	£46	£1	£45
GCD Ysgol	£46	£31	£15
GCD AB	£46	£31	£15
Ymarferwyr DSW	£46	£1	£45
Gweithwyr Ieuenctid Proffesiynol	£46	£1	£45
Gweithwyr Cymorth Ieuenctid	£46	£31	£15

Penderfynodd Llywodraeth Cymru mai'r ffordd fwyaf effeithiol o sicrhau bod ymarferwyr yn parhau i dderbyn cymhorthdal gan y Llywodraeth tuag at eu ffi gofrestru CGA oedd drwy ddileu'r baich ar gyflogwyr i ad-dalu pob cofrestrai a'i roi i CGA yn uniongyrchol fel un swm swmp (£1miliwn).

Mae CGA yn cynnig, er cysondeb, mai £45 a £15 yw'r ffioedd ar gyfer staff mewn ysgolion annibynnol, ond rhaid iddo dynnu sylw Llywodraeth Cymru at y ffaith bod hyn yn cuddio'r gost wirioneddol sef £46 a £15, a fydd yn effeithio ar incwm CGA.

Y Gymraeg

Cwestiwn 14: Hoffem gael gwybod eich barn am yr effeithiau y byddai'r cynigion yn eu cael ar y Gymraeg, yn benodol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac o ran peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Beth fyddai'r effeithiau, yn eich barn chi? Sut y gellid cynyddu'r effeithiau cadarnhaol, neu liniaru'r effeithiau negyddol?

Cwestiwn 15: Eglurwch hefyd os gwelwch yn dda sut rydych chi'n credu y gall y cynigion gael eu llunio neu eu haddasu er mwyn cael effeithiau cadarnhaol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg; a pheidio â chael effeithiau andwyol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg

Mae CGA wedi ystyried cwestiynau 14 a 15, sy'n ymwneud â'r Gymraeg, yn ofalus.

Mae CGA yn sefydliad dwyieithog sydd wedi ymrwymo'n llwyr i gydymffurfio â chategori pedwar Safonau'r Gymraeg. Mae hyn yn ei gwneud yn ofynnol i ni gydymffurfio â 148 o safonau sy'n ymwneud â chyflenwi gwasanaethau, materion gweithredu, llunio polisiau, a chadw cofnodion. Mae'r Cyngor yn monitro ei gydymffurfiaeth â'r safonau ac yn cyhoeddi adroddiad blynyddol ar hyn.

O ystyried ein hymrwymiad i ddarparu gwasanaeth dwyieithog, nid yw CGA o'r farn bod unrhyw rwystrau i ymarferydd rhag defnyddio'r Gymraeg os ydynt yn dymuno gwneud hynny.

Nid oes gan CGA unrhyw sylwadau pellach i'w gwneud o dan gwestiwn 16 ac mae'n ddiolchgar am y cyfle i ymateb i'r cais hwn am dystiolaeth. Rydym yn gobeithio bod y sylwadau uchod o gymorth; os oes angen rhagor o fanylion, mae croeso i chi gysylltu â ni.

Rydym yn fodlon i enw ein sefydliad a chynnwys ein hymateb gael eu cynnwys mewn unrhyw adroddiad a gyhoeddir yn sgil y cais hwn am dystiolaeth.